

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ochr yn ochr â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn darparu safbwynt teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021.

**Jeremy Miles, AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**

9 Gorffennaf 2021

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

- 1.1 Mae rheoliadau cymorth i fyfyrwyr yn gwneud darpariaeth i dalu swm o gymorth ariannol i fyfyrwr cymwys sy'n ymgymryd â chwrs addysg uwch, sef grant a benthyciad, i dalu ei gostau byw. Mae'r swm yn seiliedig ar ei leoliad. Oherwydd y cyfyngiadau yn sgil y coronafeirws yn ddiweddar, efallai bod myfyrwyr wedi bod gartref tra bod y costau o fyw oddi cartref wedi parhau i gronni. Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 yn gwneud diwygiad sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i dalu'r gyfradd briodol o gymorth mewn amgylchiadau o'r fath yn ymwneud â'r coronafeirws a allai godi yn y dyfodol, gan sicrhau bod y polisi yn cael ei weithredu'n gywir ac na roddir myfyrwyr mewn sefyllfa o galedi ariannol.
- 1.2 Mae gwallau teipograffyddol mewn sawl offeryn statudol sy'n darparu ar gyfer agweddau ar gymorth i fyfyrwyr wedi'u cywiro.

### **2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

- 2.1 Dim.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

- 3.1 Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 ("Deddf 1983") ac adrannau 22(2)(a) a (c) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ("Deddf 1998").
- 3.2 Mae adrannau 1 a 2 o Ddeddf 1983 yn darparu pwerau i Weinidogion wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n rhoi'r awdurdod i godi ffioedd uwch ar rai myfyrwyr, ac yn rhoi awdurdod ar gyfer rheolau cymhwysedd mewn perthynas â rhai dyfarniadau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu waith ymchwil.
- 3.3 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhoi'r awdurdod neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith materion eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.

- 3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2006 (OS 2006/1458).
- 3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2 o Ddeddf 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae modd mwn perthynas â Chymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).
- 3.6 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio mewn perthynas â darpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 ochr yn ochr â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3.7 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y mae modd mewn perthynas â Chymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).
- 3.8 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162, a pharagraff 30 o Atodlen 11, Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 3.9 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

#### **4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth**

- 4.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyryr) (Cymru) 2017 ('Rheoliadau 2017'), sy'n darparu ar gyfer y rheini sy'n dechrau cwrs addysg uwch cyn 1 Awst 2018, a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyryr) (Cymru) 2018 ('Rheoliadau 2018'), sy'n darparu ar gyfer y rheini sy'n dechrau cwrs addysg uwch ar neu ar ôl 1 Awst 2018, yn gwneud darpariaeth i dalu swm o gymorth cynhaliath i fyfyrwr cymwys, sy'n amrywio yn ôl ei leoliad yn ystod y tymor. Mae Rheoliadau 2018 yn gwneud darpariaeth ar gyfer tair cyfradd gymorth sy'n ymwneud ag (a) y rheini sy'n byw gartref, (b) y rheini sy'n byw oddi cartref, ond nid yn Llundain, ac (c) y rheini sy'n byw oddi cartref yn Llundain. Mae Rheoliadau 2017 yn gwneud darpariaeth debyg ar draws pum categori. Pwrpas hyn yw helpu myfyriwr i dalu'r costau uwch sy'n gysylltiedig â byw oddi cartref. Os bydd myfyriwr yn newid ei gyfeiriad tymor, mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol

ailasesu'r cymorth a roddir iddo. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fyfyrwyr cymwys (israddedigion yn bennaf, ond rhai graddedigion cyrsiau anrhydedd hefyd) sy'n ymgymryd â chwrs amser llawn a ddynodir yn gwrs y telir cymorth ar ei gyfer, naill ai o dan Reoliadau 2017 neu o dan Reoliadau 2018. Nid yw'r cyfraddau cymorth yn amrywio yn ôl lleoliad i fyfyrwyr rhan-amser, nac i'r rheini sy'n ymgymryd â chwrs Meistr neu ddoethuriaeth ôl-radd.

- 4.2 Oherwydd cyfyngiadau'r coronafeirws yn ystod blynyddoedd academaidd 2019/20 a 2020/21, arhosodd rhai myfyrwyr gartref, ar sail cyngor y Llywodraeth ac yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â'r coronafeirws, er eu bod wedi trefnu llety amser tymor. Roedd llawer o'r myfyrwyr hyn wedi ymrwmo i gontractau llety, neu'n parhau i gronni costau tebyg i'r costau a fyddai wedi bod ganddynt pe baent wedi bod yn byw oddi cartref, ac felly ni welsant fudd y costau is a ragdybir gan y rheoliadau pan fydd myfyriwr yn byw gartref. Ni fyddai ailasesu'r cymorth a phennu cyfradd is yn cyflawni nod y polisi, sef helpu myfyriwr i dalu ei gostau.
- 4.3 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 yn diwygio Rheoliadau 2017 a Rheoliadau 2018 i sicrhau bod myfyriwr cymwys sy'n byw mewn lleoliad penodol am reswm sy'n ymwneud â'r coronafeirws yn unig yn cael ei drin fel pe bai'n byw yn y lleoliad lle byddai'r myfyriwr cymwys wedi bod yn byw oni bai am y rheswm hwnnw. Er enghraifft, bydd myfyriwr a fyddai, oni bai am y coronafeirws, yn byw mewn neuadd breswyl, ond sy'n byw gartref dros dro, yn cael ei drin fel pe bai'n byw yn y neuadd at ddiben asesu ei hawl am gymorth. Mae hyn yn sicrhau bod y polisi o helpu myfyriwr i dalu ei gostau yn cael ei weithredu'n gywir, yn cael gwared ar y baich ychwanegol o orfod defnyddio pwerau disgresiwn, yn rhoi sicrwydd i fyfyrwyr, ac yn ei gwneud yn bosibl cyfathrebu'n glir â myfyrwyr. Ni chaiff myfyrwyr eu hailasesu gan bennu cyfradd gymorth is oni bai eu bod nhw'n gofyn am i hynny ddigwydd.
- 4.4 Rydym yn achub ar y cyfle i gywiro gwallau teipograffyddol yn Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007, Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017, Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018, a Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019 yn Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021.

## **5. Ymgynghoriad**

- 5.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad. Mae'r Rheoliadau wedi'u diwygio i ddarparu ar gyfer gweithredu'r polisi cyfredol ynghylch cymorth i fyfyrwyr yn gywir. Nid oes polisi newydd wedi'i gyflwyno.

## **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

- 6.1 Ni pharatowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn hwn gan mai diwygiadau technegol a wneir er mwyn newid geiriad y ddeddf yn hytrach na'i diben neu ei heffaith. Mae hyn yn gydnaws â'r polisi a amlinellir yng *nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth*.